# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Min y Ddol

**Plas Kynaston Lane**
**Cefn Mawr**
**Wrecsam**
**LL14 3PY**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Min y Ddol

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Min y Ddol |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Samantha Holman |
| Person â gofal | Samantha Holman |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oedd |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 9yb tan3yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mis Mawrth 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/05/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithdrefnau asesu ac adnabod cynnydd yn cael eu sefydlu'n gadarn

A2 Ffurfioli gweithdrefnau gwerthuso perfformiad staff

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn cael cyfleoedd cyson i wneud dewisiadau. Wrth iddynt gyrraedd, maent yn mynd yn syth i ddewis eu hoff ardal ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r gweithgaredd. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i leisio eu barn. Er enghraifft, maent yn penderfynu pa ffrwyth i'w gael ar gyfer byrbryd ac yn cofnodi eu dewis ar fwrdd gwyn. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau yn ystod sesiwn grŵp, ac maent yn ffyddiog y bydd ymarferwyr yn dangos diddordeb yn yr hyn sydd ganddynt i'w rannu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n llwyddiannus ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos â'r ymarferwyr ac yn hyderus iawn wrth sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos model o'r geg ac yn trafod pa fwydydd sydd yn ddrwg i'n dannedd. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n rhwydd â'r gweithdrefnau, sy'n creu sicrwydd iddynt wrth ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae'r plant yn datblygu medrau cymdeithasu buddiol. Maent yn croesawu ffrindiau yn frwdfrydig gan gyfarch ei gilydd a chyd-chwarae'n hapus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr, cyfoedion ac ymwelwyr. Er enghraifft, wrth y bwrdd bwyd, maent yn aros eu tro yn amyneddgar ac yn ymateb yn briodol i sgyrsiau gyda chefnogaeth yr ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, er enghraifft wrth gael llawer o hwyl yn chwarae drymiau. Mae bron bob un yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal i'r llall gan ymateb yn llawn cyffro wrth

ymgymryd â'r gweithgareddau. Maent yn defnyddio'r offer er mwyn datblygu eu medrau corfforol wrth iddynt gydbwyso a theithio ar hyd llwybr. Defnyddiant gamera i dynnu llun o'u taith ac maent yn dangos cryn falchder yn eu cyflawniad.

Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn datrys problemau'n hyderus, err enghraifft wrth archwilio sut i greu ramp addas i geir. Maent yn symud adnoddau o ardaloedd eraill ac yn eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn canfod sut i wneud i'r car deithio'n bell. Ar ôl cyrraedd yn y bore, maent yn gosod eu heiddo ar eu bachyn ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu hylendid personol yn ystod y dydd. O dan gyfarwyddyd, maent yn golchi dwylo ar ôl bod i'r tŷ bach neu ar ôl newid clwt. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn chwarae'n hapus a bodlon gyda'u ffrindiau ac yn datblygu perthynas agos a chefnogol â'r ymarferwyr.

Mae medrau llafar Cymraeg y plant yn datblygu'n a dda, er bod y Gymraeg yn ail iaith i'r rhan fwyaf ohonynt. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod amrediad eang o eirfa ac yn arddangos dealltwriaeth dda wrth ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau'r ymarferwyr. Mae'r lleiafrif yn dechrau defnyddio patrymau iaith cyfarwydd yn ddigymell gyda'u ffrindiau. Maent yn defnyddio geirfa'n fedrus, yn trafod lliwiau ac yn canu'n hyderus, er enghraifft wrth ymateb yn y gân 'Beth yw dy enw di?'

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar ymarferwyr, ac yn ymateb yn garedig i'w gilydd yn ystod eu gweithgareddau ac amser byrbryd. Mae eu medrau darllen cynnar yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae llawer yn ymwneud â llyfrau yn hyderus a hwyliog, gan droi tudalennau ac ystyried beth sy'n digwydd yn y stori. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol trwy ddatblygu medrau modur mân addas er mwyn dal a thrin gwahanol offer. Yn yr ardal allanol, mae llawer yn creu marciau gyda sialc a phinnau ac yn falch o'r hyn maent wedi llwyddo ei gyflawni.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn ymateb yn hyderus i gyfleoedd ac anogaeth yr ymarferwyr i adnabod siapiau. Maent yn cyfri'n gynyddol hyderus wrth ymchwilio i sawl tegan sydd ganddynt neu wrth weld faint o blant sydd yn y cylch heddiw. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer digidol yn briodol, er enghraifft wrth roi cyfarwyddiadau i'r teclyn sy'n rheoli car bychan trydanol. Maent yn rhoi cyfarwyddyd i'r car fynd yn ei flaen, yn ôl, i'r dde a'r chwith. Mae'r plant yn tynnu lluniau gyda chamerâu, ac yn defnyddio offer i ddod o hyd i ddeunyddiau sydd wedi eu gwneud o fetel. Maent yn dewis yr offer yr hoffent chwarae gyda nhw yn aeddfed a hyderus, ac yn gofyn am gymorth gan eu ffrindiau neu gan ymarferydd yn ôl y galw.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth gerdded ar hyd y trawst cydbwyso tra'n defnyddio camera i dynnu llun ar yr un pryd. Maent yn symud offer yn annibynnol i gyfoethogi eu profiadau ac i ddatrys problemau, er enghraifft wrth geisio gweld sut i ddefnyddio dŵr i symud ceir bach i

lawr y beipen i mewn i'r twba dŵr. Maent yn dathlu gyda'u ffrindiau ar ôl llwyddo gyda'r her.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arddangos medrau creadigol da. Er enghraifft, maent yn creu lluniau gan ddefnyddio paent a mwd yn gwbl annibynnol a chreu coronau ar gyfer ymarferwyr a'u haddurno'n hyfryd.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu systemau asesu risg ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a lleihau risgiau. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion am ddamweiniau a digwyddiadau ac fe gaiff y rhain eu llofnodi gan rieni a gofalwyr i ddangos tystiolaeth eu bod yn cael gwybodaeth gyson. Mae'r holl ymarferwyr yn hyderus ynghylch sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgareddau corfforol. Er enghraifft, maent yn cynnal sesiynau ioga gyda'r plant ac yn sicrhau gweithgareddau dyddiol yn yr awyr agored i gael awyr iach. Mae gweithdrefnau newid clytiau yn cyd-fynd â chanllawiau presennol ar reoli heintiau. Mae ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant i gefnogi unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â'r plant drwy eu trin â gofal a pharch. Maent yn canmol y plant yn aml, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu ei gilydd. Mae pob ymarferydd yn defnyddio iaith gadarnhaol sydd hefyd yn hyrwyddo ymddygiad da ac yn cefnogi'r plant i reoli eu dewisiadau yn effeithiol. Maent yn sgwrsio â'r plant yn fwriadus ac yn manteisio ar gyfleoedd i fwydo geirfa Cymraeg newydd.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb i ddiddordeb plentyn i greu coron ar ôl iddynt sylwi ar goron plant eraill. Mae ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd effeithiol i ymateb i ddiddordebau'r plant, ac yn eu holi'n bwrpasol. Maent yn manteisio ar gyfle i gyfri coesau'r anifeiliaid ac i fwydo geirfa newydd wrth i'r plant beintio llun o'r traeth.

Mae ymarferwyr yn sensitif i blant sy'n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol ac yn gadael iddynt fynd ar eu trywydd eu hunain. Maent yn sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth fuddiol o gynaliadwyedd ac ailgylchu trwy gynnig profiadau bywyd go iawn iddynt. Maent yn darparu cyfleusterau ailgylchu amrywiol ac mae'r plant yn defnyddio'r rhain yn annibynnol yn ystod gweithgareddau celf a chrefft yn ogystal ag amser byrbryd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cynllunio profiadau dysgu a chwarae buddiol sy'n ymateb i anghenion y plant. Maent yn gyson ac effeithiol yn y modd y maent yn adeiladu hyder y plant ac yn eu hybu i fod yn annibynnol. Maent yn

annog y plant i fentro ac ymchwilio. Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi datblygu cynlluniau pwrpasol sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac yn ymateb i gamau datblygiad y plant yn llwyddiannus. Maent yn ystyried diddordebau'r plant gan addasu adnoddau a heriau, yn ôl yr angen. Er enghraifft, yn sgil ymweliadau rhai o'r plant â lan y môr, penderfynwyd adeiladu ar y diddordeb hwnnw gan ddarllen stori am Dewin a Doti ar y traeth.

Mae ymarferwyr yn fedrus wrth benderfynu pryd i ymyrryd yn y chwarae, a phryd i ganiatáu i'r plant chwarae'n ddigymell gyda'u ffrindiau. Maent yn deall pwysigrwydd eu rôl wrth hwyluso'r dysgu a'r chwarae gan fanteisio ar ystod o ddulliau addysgu effeithiol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau'r plant. Maent yn annog y plant yn fedrus i ddefnyddio'u Cymraeg, gan adeiladu eu dealltwriaeth a'u hyder yn llwyddiannus. Maent yn ychwanegu adnoddau'n fedrus o amgylch y lleoliad er mwyn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol y plant mewn modd naturiol wrth iddynt chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn holi'n fedrus, gan roi amser i'r plant feddwl drostynt eu hunain. Mae cyfleoedd i blant chwarae am gyfnod estynedig wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r ymarferwyr yn hwyluso'r dysgu yn llwyddiannus ac yn annog y cam nesaf yn y dysgu a datblygiad y plant. Er enghraifft, maent yn awgrymu y gallai plentyn ddefnyddio teiar er mwyn creu siâp cylch cywir.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu ymwybyddiaeth o'u diwylliant Cymreig trwy nodi dathliadau fel dydd Gŵyl Dewi a thrwy arlunio'r ddraig goch a'r cennin Pedr. Maent yn dysgu am bobl o wahanol gefndiroedd trwy ddefnyddio ystod o adnoddau, a thrwy ddysgu am ddathliadau gwahanol ddiwylliannau. Mae'r ymarferwyr yn trefnu amrediad effeithiol o ymweliadau sy'n hyrwyddo profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus, er enghraifft i fannau lleol fel y llyfrgell a pharc gwledig cyfagos.

Mae gweithdrefnau adnabod cynnydd y plant wedi eu sefydlu'n ddiweddar ac yn flaenoriaeth gyfredol gan arweinwyr. Mae'r trefniadau hyn wedi eu seilio ar egwyddorion cadarn ac yn ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau rheolaidd a chyfleoedd i drafod addasiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth. Er hyn, mae'r gweithdrefnau hyn yn parhau i wreiddio ac mae'n gynnar i ddod i gasgliad am eu heffaith.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae ymarferwyr yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant. Gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi'n brydlon a chedwir cofnod manwl o'r rhain. Mae asesiadau risg perthnasol ar waith ar gyfer yr adeilad, yr ardal tu allan ac ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae'r rhain yn bwydo'r rhestr wirio ddyddiol y mae ymarferwyr yn ei gweithredu i leihau risgiau i blant. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân yn unol â rhai'r ysgol leol er mwyn i blant gyfarwyddo â'r gweithdrefnau. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod systemau ar gyfer casglu a derbyn plant ar ddechrau a diwedd sesiynau yn drwyadl.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sydd wedi ei gynllunio a'i osod i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu. Mae'r ardaloedd chwarae yn sbarduno dychymyg y plant yn arbennig o dda ac yn eu galluogi i gymryd risgiau, fel teithio ar hyd llwybr pren gan ddefnyddio darnau pren a boncyff. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae cyfleusterau da ar gael i blant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol ac mae'r rhain yn sicrhau a pharchu eu preifatrwydd. Mae'r ardaloedd tu mewn a thu allan wedi eu trefnu'n fwriadus i gynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un weithgaredd i'r llall yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, ac mae arddangosfeydd deniadol yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, mae hunanbortreadau'r plant yn eu croesawu i'r lleoliad ac mae'r goeden benblwydd yn dathlu dyddiadau pwysig. Mae corneli cysurus wedi eu trefnu'n bwrpasol er mwyn cynnig cyfleoedd i blant orffwys a chael amser tawel i ganolbwyntio.

Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio offer i symud dŵr o'r gronfa gan drefnu pibellau er mwyn rasio ceir yn y twba dŵr. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol ac i arbrofi drostynt eu hunain. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn ogystal, anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad at deganau a llyfrau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r person â gofal, sydd hefyd yn cyflawni rôl fel unigolyn cyfrifol, yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol ar gyfer ei chydweithwyr. Mae'n hynod ymroddgar ac yn arddangos brwdfrydedd ym mhob agwedd o'i gwaith. Yn yr un modd, mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu rolau'n ddidwyll ac effeithiol drwy gydweithio'n dda er lles y plant yn eu gofal. Maent yn garedig a chyson â'r plant ac yn gefnogol iawn i'w gilydd. Mae rôl y pwyllgor rheoli wedi'i sefydlu'n gadarn. Cynigir arweiniad a chefnogaeth gyson ganddynt ac maent yn cefnogi'r person â gofal a'r ymarferwyr mewn modd ymarferol. Maent yn ymateb yn brydlon i faterion allweddol, pan fydd angen.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ystod dda o dystiolaeth er mwyn hunanwerthuso gwaith y lleoliad. Mae hon yn broses barhaus o adnabod agweddau cryfion y lleoliad, a'r elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach. Daw gwybodaeth ddefnyddiol o holiaduron rhieni a rhoddir ystyriaeth i farn y plant. Mae'r cynllun gwella yn ddogfen ddefnyddiol sy'n gosod a gwerthuso blaenoriaethau pwrpasol.

Mae trefniadau addas wedi eu sefydlu ar gyfer gwerthuso perfformiad ymarferwyr yn flynyddol. Mae arweinwyr yn arsylwi ar ymarferwyr wrth eu gwaith, ac yn cynnal trafodaethau anffurfiol â nhw am eu hanghenion datblygiad a'u dyheadau. Mae cyfleoedd rheolaidd hefyd i ymarferwyr drafod eu hanghenion mewn cyfarfodydd staff. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi eu datblygu a'u ffurfioli'n llawn hyd yma.

Mae trefniadau recriwtio yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae niferoedd digonol o ymarferwyr wedi cymhwyso i'r lefel addas ar gyfer diwallu anghenion y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr mewn modd effeithiol, ac maent yn canolbwyntio'n barhaus ar sicrhau profiadau dysgu difyr ar gyfer y plant mewn awyrgylch deuluol a hapus. Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd, gan gynnwys cyfle i fynychu hyfforddiant ar sut i ddatblygu annibyniaeth plant.

Sefydlwyd amrediad da o bartneriaethau sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos â rhieni a gofalwyr er mwyn ymateb i anghenion a diddordebau'r plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n agos â swyddogion yr awdurdod lleol a gydag asiantaethau cefnogi er mwyn datblygu'r ddarpariaeth yn barhaus. Mae'r ddarpariaeth wedi ei lleoli ar safle dwy ysgol gynradd ac mae'n elwa o gysylltiadau agos â'r ysgolion. Mae perthynas agos wedi ei sefydlu gyda'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyfagos. Mae hyn yn hwyluso'r broses o drosglwyddo wrth i'r plant symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 10 Gorffennaf 2023